**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

18 Ionawr 2024

Annwyl Delyth,

Y DU a Gwlad Belg: Ennill Arian drwy Gyflogaeth rhwng y DU a Gwlad Belg Aelodau Penodol o'r Teulu a Gyflogir mewn Cenhadaeth Ddiplomyddol a Swyddi Consylaidd

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn gyfrifol am fonitro'r broses o weithredu cytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach yn y Chweched Senedd.

Yn ystod ein cyfarfod ar 4 Rhagfyr 2023, fe wnaethom ystyried y DU/Gwlad Belg: Cytundeb ar Ennill Arian drwy Gyflogaeth rhwng y DU a Gwlad Belg Aelodau Penodol o'r Teulu a Gyflogir mewn Cenhadaeth Ddiplomyddol a Swyddi Consylaidd. Nod y cytundeb hwn yw caniatáu i aelodau'r teulu (priod, partneriaid neu blant) y rhai a gyflogir gan y DU mewn cenadaethau diplomyddol, swyddi consylaidd neu sefydliadau rhyngwladol ymgymryd â galwedigaeth gyflogedig y tu allan i'r genhadaeth yng Ngwlad Belg (ac i'r gwrthwyneb).

Er bod materion tramor a pholisi cyflogaeth o fewn y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu a'r gwasanaeth sifil yn faterion a gadwyd yn ôl, mae goblygiadau posibl i'r llywodraethau datganoledig. Er enghraifft, rydym o'r farn y gallai'r cytundeb hwn fod yn gymwys ii gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru sy'n gweithio yn swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru y rhoddi statws ddiplomyddol iddynt.

Gan y gallai'r cytundeb effeithio ar gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru yn ei swyddfa ym Mrwsel, cytunwyd i dynnu sylw eich Pwyllgor ato, er gwybodaeth.

Mae ein hadroddiad diweddaraf ar gael yma.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd